

Rhif: WG33399



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llywodraeth Cymru

Dogfen Ymgynghori

Codau Ymarfer ar gyfer Lles Da Byw:

leir Dodwy

leir Bwyta ac leir Bridio

Dyddiad cyhoeddi: **20 Tachwedd 2017**
Ymatebion erbyn: **12 Chwefror 2018**

Trosolwg

Mae'r ymgynghoriad hwn yn rhoi cyfle i'r diwydiant, asiantaethau gorfodi, grwpiau buddiant a'r cyhoedd i gynnig eu sylwadau ar God Ymarfer diwygiedig ar gyfer Lles Ieir Dodwy a Chod Ymarfer newydd ar gyfer Lles Ieir Bwyta a Bridio.

Bwriad y codau yw annog y rheini sy'n gyfrifol am ieir dodwy, ieir bwyta ac ieir bridio i gadw at y safonau uchaf wrth ofalu amdanynt. Maen nhw'n esbonio beth sydd angen i rywun ei wneud i gwrdd â'r safonau gofal y mae'r gyfraith yn gofyn amdanynt. Yn gryno, os ydych yn berchen ar anifail neu'n gyfrifol am anifail, mae dyletswydd gyfreithiol arnoch i gymryd camau rhesymol i sicrhau bod ei anghenion lles yn cael eu diwallu.

Mae Llywodraeth Cymru'n ddiolchgar iawn i gynrychiolwyr y diwydiant am eu helpu i baratoi'r Codau.

Sut i ymateb

Mae'r ymgynghoriad hwn yn holi'ch barn ar arddull, cynllun a chynnwys y codau a'r wybodaeth, y cyngor a'r arweiniad y maen nhw'n eu cynnwys. Mae'n bwysig eich bod yn rhoi cymaint â phosib o wybodaeth a thystiolaeth i gefnogi'ch barn. Bydd hyn yn helpu inni sicrhau bod y codau'n fwy cywir ac o ansawdd gwell. Mae croeso ichi gynnig sylwadau ar unrhyw ran o'r codau.

Yn eich ymateb, nodwch yn glir ba god rydych yn cynnig sylw arno.

Anfonwch eich sylwadau erbyn canol nos **5 Chwefror 2018** at:

LivestockWelfare@Wales.GSI.Gov.UK

Cangen Lles Anifeiliaid,
Llywodraeth Cymru,
Parc Cathays,
Caerdydd,
CF10 3NQ

Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.

Manylion cyswllt

I gael rhagor o wybodaeth:

Cangen Lles Anifeiliaid,
Llywodraeth Cymru,
Parc Cathays,
Caerdydd,
CF10 3NQ

E-bost: LivestockWelfare@Wales.GSI.Gov.UK

Rhif Ffôn: 03000 258080

Diogelu data

Sut y byddwn yn defnyddio'r farn a'r wybodaeth a roddwch inni

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgynghoriadau yn y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni'n ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn wedi'u cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn

caniatáu inni gadw gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n fater pwysig inni ei gadw mewn cof. Fodd bynnag, gallai fod rhesymau pwysig weithiau dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn inni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

